Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Polisi Cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru

Diweddarwyd Mehefin 2020

## Polisi Cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru

Cefndir

Mae'r Cyngor yn berchen ar oddeutu 10,645 o eiddo (cyfrifwyd ar 31 Mawrth 2021) ac, yn ogystal â hynny, mae 404 o fflatiau lesddaliad. Gwnaeth y Cyngor holi barn tenantiaid yn gynnar yn 2012 mewn perthynas â throsglwyddo eu cartrefi i landlord cymdeithasol cofrestredig. Pleidleisiodd y tenantiaid i aros gyda'r Cyngor. Yn ystod y bleidlais, amlinellodd y Cyngor gynllun cadw i denantiaid er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020 (a estynnwyd tan 2021 ers hynny). Tua diwedd 2012, cytunwyd ar strategaeth fuddsoddi a chynllun gweithredu manylach yn dilyn ymgynghoriad pellach â thenantiaid. Mae rhaglenni ar wahân ar gyfer gwaith mewnol ac allanol ar sail gymunedol gyda chontractau cydamserol yn y tair ardal lle mae tai (Cwm Rhymni Isaf, Cwm Rhymni Uchaf a Chymoedd y Dwyrain). Mae'r gwaith contract mewnol wedi'i rannu 50:50 yn fras rhwng y gweithlu mewnol a chontractwyr, ond caiff gwaith allanol ei wneud gan gontractwyr yn bennaf. Caiff gwaith mewnol ac allanol i'n cynlluniau gwarchod ei wneud gan ein gweithlu mewnol.

Mae rhaglen amgylcheddol ar wahân a fydd yn mynd i'r afael â Rhan 6 o SATC a fydd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r rhaglen wedi cael ei llywio gan ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol, mewn 82 o gymdogaethau a chymunedau. Mae dros 300 o brosiectau wedi cael eu nodi a'u cyflawni o ganlyniad i'r buddsoddiad o £10.6m. Mae gwelliannau wedi cynnwys parciau sglefrio ac ardaloedd chwarae newydd, campfeydd gwyrdd, goleuadau stryd gwell, mwy o leoedd parcio, cynlluniau plannu, celfi stryd a llwybrau lletach er mwyn gwella hygyrchedd.

Mae cynllun busnes SATC yn seiliedig ar yr arolwg o gyflwr y stoc a gynhaliwyd gan Savills yn 2008. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod y stoc wedi cael ei chynnal a'i chadw'n dda o ddydd i ddydd ond bod angen buddsoddiad sylweddol er mwyn bodloni gofynion SATC. Nodwyd bod nifer sylweddol o gydrannau wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, neu bron â chyrraedd diwedd eu hoes, a bod angen eu newid yn y byrdymor. Roedd y prif feysydd lle roedd y stoc dai yn methu â chyrraedd y Safon yn ymwneud â diffyg gwaith moderneiddio mewnol i'r eiddo a materion yn ymwneud â'r amgylchedd o gwmpas yr eiddo.

Gan fod amser wedi mynd heibio ers yr arolwg gan Savills ac o ystyried mai dim ond sampl o 15% a arolygwyd, ac y buddsoddwyd yn barhaus yn y stoc rhwng 2008 a 2012, penderfynwyd y byddai angen i bob eiddo gael arolwg unigol er mwyn pennu cwmpas y gwaith y byddai angen ei wneud i gyrraedd y safon a/neu wirio a oedd gwaith blaenorol yn cydymffurfio â'r safon yn llwyr. Rydym bellach wedi cynnal arolygon mewnol ac allanol o'n holl eiddo. Caiff yr arolygon eu defnyddio hefyd i ddiweddaru/diwygio'r gronfa ddata o asedau ar gyfer adnewyddu cydrannau y tu hwnt i 2020 ac i ddarparu manylebau gwaith ar gyfer pecynnau contract.

Mae gan y Cyngor dîm mewnol o syrfewyr sy'n defnyddio Canllawiau SATC (Gorffennaf 2008) fel dull o bennu cwmpas y gwaith y mae angen ei wneud i bob eiddo. Gwnaeth y syrfewyr arfer barn wrth benderfynu a ddylai unrhyw gydran gael ei hadnewyddu, ac a oedd posibilrwydd na fyddai unrhyw gydran yn cydymffurfio mwyach cyn 2020. Mae pob eiddo yn wahanol oherwydd gwaith a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, naill ai fel rhan o raglenni a gynlluniwyd neu atgyweiriadau ymatebol.
Bu cryn drafod am ddull y contract a'r fanyleb gyffredinol â grŵp cynrychioliadol o denantiaid yn dilyn y bleidlais. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y caiff gofynion sylfaenol pob rhan o'r safon eu bodloni ond, mewn llawer o achosion, bydd yn rhagori ar hyn er mwyn cyflawni canlyniad boddhaol i denantiaid. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r dull gweithredu hwn â'r goblygiadau cost i'r gyllideb. Nid yw hyn yn golygu y bydd pob tenant yn cael yr un peth,

yn enwedig dan yr amgylchiadau hynny lle y gwnaed gwaith yn flaenorol sy'n golygu bod yr eiddo eisoes yn cyrraedd y safon. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ystyriaethau ffisegol ac ystyriaethau o ran cost a fydd yn cyfyngu ar yr hyn sy'n ymarferol ac yn rhesymol. Yn ogystal, gall tenantiaid ddewis peidio â derbyn y gwaith oni bai fod goblygiad iechyd a diogelwch, e.e. gwaith ailweirio trydanol. Caiff y cyfyngiadau hyn eu cofnodi fel Methiannau Derbyniol o dan feini prawf Llywodraeth Cymru, y bydd y rhan fwyaf ohonynt o ganlyniad i denantiaid sy'n gwrthod gwaith, a chânt eu cynnwys mewn rhaglenni cynnal a chadw a gynllunnir yn y dyfodol.

Caiff perfformiad yn erbyn y rhaglen ei fonitro'n agos a chynhelir ymarfer ailbroffilio blynyddol i ystyried unrhyw faterion annisgwyl, perfformiad contractwyr, problemau mynediad a chyllid grant a all effeithio ar y rhaglen. Nod yr ymarfer ailbroffilio yw sicrhau bod modd parhau i gydymffurfio'n llawn erbyn 2020. Cafodd adroddiad ar yr ymarfer ailbroffilio diweddaraf ei rannu ag aelodau a chynrychiolwyr tenantiaid ar 14 Chwefror 2019. Rhagwelir mai hwn fydd yr ymarfer ailbroffilio olaf wrth i ni ddechrau ar gamau olaf y rhaglen ond, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 parhaus, gohiriwyd y gwaith mewn llawer o feysydd a arweiniodd at oedi i'n dyddiad cyflawni, sef Mehefin 2020. Cadarnhaodd data a gasglwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 y byddem wedi llwyddo i fodloni ein dyddiad cydymffurfio, sef Mehefin 2020, pe na bai'r cyfyngiadau symud wedi cael eu cyflwyno.

Dehongli SATC

Caiff cwmpas y gwaith ar gyfer pob eiddo ei asesu yn seiliedig ar Ganllawiau Safon Ansawdd Tai Cymru, Gorffennaf 2008, a Rhannau 1, 2, 3, 4 a 7 yn benodol, a thrwy gymhwyso'r Rhestr Wirio ar gyfer Asesu'r Safon. Yn fewnol, mae gwaith yn canolbwyntio ar bedair cydran allweddol – ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwaith ailweirio a systemau gwresogi. Yn allanol, y ffocws yw cyflwr cydrannau allweddol gan gynnwys toeon, ffenestri, drysau, waliau, llwybrau a ffensys. Mae topograffi'r Fwrdeistref Sirol yn arwain at gyfyngiadau penodol mewn perthynas â gwaith allanol gan fod gan lawer o eiddo erddi serth ac mae waliau cynnal mawr. Yn ogystal, mae stoc o 890 o garejis ar draws y prif ystadau.

O'r arolygon unigol, caiff rhestr waith ei pharatoi ar gyfer pob eiddo. Yna caiff eiddo eu grwpio gyda'i gilydd i greu pecynnau a gaiff eu dyrannu i'r contractwr perthnasol neu'r gweithlu mewnol yn dibynnu ar yr ardal gymunedol.

Lle y bo'n amlwg o'r ymweliad cyntaf â'r eiddo y gall fod gan yr aelwyd anghenion arbennig, gwneir atgyfeiriad at y Therapydd Galwedigaethol.  Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn gwneud asesiad ac yn paratoi cynllun ymyrryd gan argymell addasiadau lle y bo angen, a gaiff eu hymgorffori yn y rhestr waith.
Polisi'r Cyngor yw gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â'r safon. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gydran y bernir bod angen ei hadnewyddu neu ei newid cyn 2021 ond, fel arall, ni chaiff cydrannau eu newid tan ar ôl 2021 a chânt eu cynnwys mewn rhaglenni cynnal a chadw a gynllunnir yn y dyfodol.

Dehongli a Chofnodi Methiannau Derbyniol

Mae'r Cyngor yn derbyn y dylai preswylwyr gael dewis ynghylch y gwaith y cynigir ei wneud i'w cartrefi.  Os bydd y tenant, am ba reswm bynnag, yn penderfynu nad yw am i'r gwaith gwella gael ei wneud, byddwn yn derbyn hyn. Os bydd y tenant yn gwrthod gwaith, caiff hyn ei gofnodi fel methiant derbyniol o ganlyniad i ddewis y preswylydd. Yr unig eithriad i hyn yw pan fyddai ystyriaeth iechyd a diogelwch, er enghraifft gwaith ailweirio trydanol, ac o dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r landlord yn gorfodi'r gwaith. Os bydd y mwyafrif o'r gwaith wedi cael ei gwblhau i'r safon, ond bod y tenant yn mynnu cadw un elfen, megis y llawr gwreiddiol,

yna caiff yr achos ei gofnodi fel cydymffurfiaeth lawn yn hytrach na methiant derbyniol. Mae hyn yn unol â'r dull gweithredu cyson a ddefnyddir ym mhob un o'r 11 o awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc dai.

Os bydd eiddo yn gadael y rhaglen, ymdrinnir â nhw maes o law naill ai pan fyddant yn dod yn wag neu fel rhan o gontract 'tacluso' yn ddiweddarach yn y rhaglen.
Y safbwynt o ran eiddo gwag yw y caiff y gwaith angenrheidiol ei wneud fel bod yr eiddo yn cyrraedd y safon ailosod, fel y cytunwyd gyda'n grŵp tenantiaid, gan mai'r ffocws yw cyflawni SATC drwy raglen gynlluniedig. Fodd bynnag, os bydd cyflwr yr eiddo yn golygu bod angen newid un gydran fewnol (e.e. cegin neu ystafell ymolchi) yna caiff yr holl gydrannau eu hystyried fel y bydd amgylchedd mewnol yr eiddo yn cydymffurfio'n llawn â SATC. Serch hynny, ystyrir mai ymgymryd â gwaith allanol i gyflawni SATC fel rhaglen gynlluniedig yw'r opsiwn mwyaf effeithlon a manteisiol yn economaidd o hyd, yn hytrach na fesul eiddo unigol, felly byddwn yn parhau i gwblhau gwaith o'r fath fel rhan o'r brif raglen SATC. Mae integreiddio'r Tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai presennol a Thîm SATC wedi bod yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau y caiff pob eiddo ei ystyried a bod y rhaglen yn mynd rhagddi mor ddidrafferth â phosibl.

Mae lle yn brin yn unedau unigol y cynlluniau tai gwarchod, ond mae'r mwyafrif ohonynt bellach yn cyrraedd safonau SATC o ran lle yn llawn a chofnodwyd nifer bach fel methiannau derbyniol oherwydd cyfyngiadau ffisegol, er bod ceginau newydd wedi'u darparu. Gwnaed gwelliannau amgylcheddol i bob un o'r cynlluniau tai gwarchod hefyd, gan ymdrin â rhan 6 o'r safon. Mae saith cynllun yn weddill ar ôl cwblhau'r cynllun ailfodelu mawr cyntaf. Nodwyd bellach fod angen gwaith adnewyddu llawn ar bedwar o'r saith cynllun, ac mae SATC wrth wraidd y meini prawf dylunio. Fodd bynnag, mae'n bosibl na chaiff gwaith ailfodelu/gwelliannau ei wneud/eu gwneud i bob cynllun cyn mis Rhagfyr 2021 am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys oedi yn sgil COVID, e.e. goblygiadau iechyd a diogelwch, gofynion adleoli, cyfyngiadau strwythurol a dylunio a gellir ystyried dymchwel rhai adeiladau. Rhagwelir felly y bydd y gwaith yn mynd rhagddo dros y tair blynedd ariannol nesaf. Mae'r tri chynllun sy'n weddill yn cael eu hadolygu o hyd mewn perthynas â gwaith ailfodelu/gwelliannau a, phan fydd y rhain yn symud ymlaen i'r cam nesaf, bydd cyrraedd SATC yn rhan o'r meini prawf dylunio.

Er mwyn diwallu anghenion rhai tenantiaid ag anableddau, gellir gosod ystafell wlyb a fydd yn golygu y darperir cawod ond nid bath. Pan gaiff yr eiddo ei ailosod, fel arfer caiff yr ystafell wlyb ei chadw os yw mewn cyflwr da. Yn dibynnu ar amgylchiadau teuluol y tenant newydd, mae'n bosibl y bydd y landlord yn gosod bath a chawod uwch ei ben yn lle'r ystafell wlyb.

Defnyddir y meini prawf methiant derbyniol yn y dull hierarchaeth a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, ond hefyd gan ddefnyddio synnwyr cyffredin. Er enghraifft, mae sawl eiddo lle nad oes waliau cydrannol yn y groglofft, neu maent yn ddiffygiol. O ran SATC, mae hyn yn arwain at ystyriaethau iechyd a diogelwch ond, yn ymarferol, dim ond pan gaiff eiddo eu hail-doi y mae modd mynd i'r afael â'r mater hwn. Gellir cofnodi croglofft wag gyffredin yn y gronfa ddata (gweler yr adran TG) a byddai'r gwaith yn cael ei ohirio oherwydd yr amseru a chyfyngiadau ffisegol. Dylid ychwanegu nodyn at gofnodion yr ased i'w gynnwys mewn gwaith ar doeon ar ôl 2020.

Mae'n bosibl y bydd topograffi yn cyfyngu ar faint o waith allanol y gellir ei wneud ac mae nifer bach o fethiannau derbyniol yn debygol oherwydd cyfyngiadau ffisegol. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n anodd gweld sut y gallai methiant derbyniol gael ei drawsnewid ar unrhyw adeg i gyrraedd y safon heb waith peirianneg sifil mawr neu heb ailddatblygu'r ystad. Mae'n annhebygol iawn y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos.

Caiff yr holl fethiannau derbyniol eu dilysu cyn cwblhau rhaglen SATC.

Systemau TG

Gan fod rhaglenni ar wahân ar gyfer gwaith mewnol ac allanol, mae mwy nag 20,000 o brosiectau eiddo unigol. Mae'r systemau TG yn rheoli'r llifoedd gwybodaeth o'r cam arolygu cychwynnol ac amserlennu gwaith i'r cam gwaith, cwblhau a'r broses brisio. Caiff Rhaglen SATC ei rheoli a'i monitro drwy Keystone. Mae'r feddalwedd hon yn cynnig swyddogaethau rheoli asedau craidd (KAM), rheoli contractau (KPM) a mesur ynni. Mae system Keystone yn defnyddio cronfa ddata Microsoft SQL Server a gweinydd cymwysiadau Microsoft Windows. Mae staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio'n symudol gan ddefnyddio meddalwedd Sylfaen Keystone ar lechi Dell sy'n defnyddio Microsoft Windows 10. Yn ddiweddar, addaswyd system gostio TOTAL er mwyn cymryd lle'r prisiadau mewnol o fewn Keystone gan y teimlwyd y bydd Keystone yn rheoli'r asedau yn fwy effeithiol pe bai costau'n cael eu rheoli o fewn system gostio benodol. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol wrth i ni symud tuag at ein Strategaeth Rheoli Asedau ar ôl 2020 lle bydd y gweithlu mewnol yn rheoli'r gwaith yn bennaf.

*Cydrannau Keystone a SATC*

Arolwg o gyflwr y stoc yn seiliedig ar gydrannau oedd arolwg Savills ac fe'i defnyddiwyd i sefydlu'r gronfa ddata, ond mae wedi cael ei wella ers hynny er mwyn sicrhau bod gan bob un o elfennau SATC gydran gyfatebol neu gydrannau cyfatebol (gweler atodiad 1 - Rhestr o Gydrannau Keystone). Nid yw rhai o elfennau SATC yn ymwneud â chydran ffisegol a dim ond drwy gael eu harsylwi gan syrfëwr y gellir cadarnhau eu bod yn cydymffurfio.

Mae oddeutu 13,500 o asedau eiddo yn y system – cartrefi, garejis, blociau ac asedau cymunol. Ar ôl y gwaith cychwynnol i drosi'r data o arolwg Savills, cynhaliwyd ymarfer i nodi cydrannau a osodwyd drwy waith cynnal a chadw cynlluniedig, gwaith atgyweirio ymatebol, a gwaith diwedd tenantiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gwnaeth hyn wella ansawdd y data drwy ddisodli data wedi'u clonio a oedd yn seiliedig ar oedrannau amcangyfrifedig cydrannau â data a oedd yn seiliedig ar ddyddiadau gosod gwirioneddol mewn eiddo penodol. Mae gwybodaeth am gydrannau yn parhau i gael ei diweddaru drwy arolygon o gyflwr y stoc a chontractau gwaith. Bydd y system hefyd yn rhagamcanu cylch oes cydrannau unigol er mwyn nodi pryd y bydd angen eu newid a chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lywio ein rhaglen o waith cynnal a chadw cynlluniedig ar gyfer y dyfodol, ar ôl 2020.

*Diweddaru Gwybodaeth am Gydrannau drwy Arolygon o Gyflwr y Stoc*

Mae arolygon ar wahân ar gyfer gwaith mewnol a gwaith allanol. Mae syrfewyr yn cynnal arolygon o gyflwr mewnol eiddo ar gyfrifiaduron llechen ac yn cofnodi'r statws cydymffurfio ar gyfer cydrannau SATC. Ar yr un pryd, caiff arolwg o gontractau ei gynnal i nodi'r holl waith y mae angen ei wneud cyn y terfyn amser yn 2020.  Os nad oes angen unrhyw waith ar gydran cyn 2020, bydd syrfewyr yn diweddaru cronfa ddata Keystone gyda'u hasesiad o bryd y bydd angen atgyweirio/newid yr eitem. Mae hyn yn gymwys i arolygon o waith allanol hefyd.

*Diweddaru Gwybodaeth am Gydrannau drwy Waith Contract*

Er mwyn sicrhau bod pob cartref y mae'r Cyngor yn berchen arno yn cydymffurfio â SATC, caiff pob eiddo unigol ei ychwanegu at gontract o waith mewnol ac allanol, hyd yn oed os nad oes angen gwneud unrhyw waith yn yr eiddo. Caiff contractau eu creu o fewn modiwl rheoli contractau Keystone. Ar gyfer gwaith mewnol, fel arfer bydd y contractau hyn yn cynnwys rhwng 20 a 30 o eiddo ac mae'n bosibl y bydd ganddynt is-gontractau ar gyfer gwaith cysylltiedig lle mae contractwr gwahanol yn ymgymryd â'r gwaith, e.e. systemau gwresogi, gwaith trydan, teilsio, gosod lloriau, neu waith asbestos. Ar gyfer gwaith allanol, gall contractau amrywio o ran maint o ychydig o eiddo i gannoedd ohonynt.

Caiff arolygon o gontractau eu cynnal sy'n nodi gwaith y mae angen ei wneud gan ddefnyddio rhestr o gyfraddau (SOR). Caiff yr eitemau SOR hyn eu hychwanegu at restr o waith (SOW) ar gyfer pob eiddo. Os na fydd angen gwneud gwaith am fod cydrannau eisoes yn cydymffurfio â'r safon (a byddant yn parhau i gydymffurfio yn 2020), caiff eitemau SOR ffug eu hychwanegu ar lefel elfennol, h.y. un fesul cegin, ystafell ymolchi, system wresogi a gwaith trydan, yn hytrach nag ar lefel gydrannol.  Mae'r un peth yn gymwys i waith allanol a wnaed yn flaenorol.

Defnyddir yr un dull elfennol i gofnodi methiannau derbyniol o dan SATC. Er enghraifft, pe bai tenant yn gwrthod gwaith i'r gegin, ni fyddai methiannau derbyniol unigol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob cydran yn y gegin. Yn hytrach, byddai un methiant yn cael ei gofnodi ar gyfer y gegin gyfan. Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn fel ffordd ymarferol o leihau cymhlethdod y broses arolygu a lleihau cyfanswm yr eitemau data a gofnodir.

Mae cofnodi'r gwaith gwirioneddol y mae angen ei wneud, methiannau derbyniol a gwaith a wnaed yn flaenorol yn golygu y gellir olrhain cydymffurfiaeth pob eiddo unigol o fewn y Rhaglen SATC.  Caiff y data a gesglir o'r arolygon eu hechdynnu a'u llwytho i warws data a gaiff ei ddefnyddio wedyn i lunio adroddiadau rheoli.

Ceir enghraifft isod o dabl nodweddiadol mewn warws data ar gyfer tri eiddo yn yr un contract.

| Eitem o ddata | Eiddo 1 | Eiddo 2 | Eiddo 3 |
|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod y Contract** | 54 | 54 | 54 |
| **Cyfeirnod yr Eiddo** | A1960023 | A1960027 | A1960033 |
| **Elfen Gegin** | Math-Gwaith Cegin Llawn | Math-cegin 2 | |
| **Elfen Ystafell Ymolchi** | Math-Ystafell ymolchi gydag ystafell wlyb a thoiled | Math-ystafell ymolchi 2 | |
| **Elfen Gwaith Trydan** | Math-Ailweirio gan y Tîm Mewnol | Math-Dim Math wedi'i Nodi | Math-Dim Math wedi'i Nodi |
| **Elfen System Wresogi** | Math-Newid Rheiddiaduron | Cyflawnwyd yn Flaenorol | Math-Newid Boeler a Rheiddiaduron |
| **Nifer Heb eu Harolygu** | | | 1 |
| **Statws Cwblhau** | 3. Wedi'i Gwblhau | 1. Heb ei Gwblhau | |
| **Nifer wedi'u Cwblhau** | 1 | 0 | |
| **Nifer Heb Waith** | | | |
| **Yn Cydymffurfio** | 1 | | |

Mae Eiddo 1 yn cydymffurfio â SATC mewn perthynas â'r elfennau mewnol gan fod gwaith wedi cael ei wneud i'r gegin, yr ystafell ymolchi, y gwaith trydan a'r system wresogi.  Nid yw Eiddo 2 yn cydymffurfio â'r safon eto gan nad yw'r gwaith a nodwyd ar gyfer y gegin, yr

ystafell ymolchi a'r gwaith trydan wedi'i gwblhau eto, ond mae'r system wresogi eisoes yn cydymffurfio ac nid oes angen gwneud unrhyw waith iddi. Nodwyd nad yw Eiddo 3 wedi'i arolygu gan fod eitemau ar goll yn yr elfen gegin a'r elfen ystafell ymolchi.

Gan fod gan bob eitem SOR werth, mae'n bosibl olrhain costau ymrwymo ar gyfer pob eiddo a chontract yn Rhaglen SATC. Nodir bod eitemau eiddo sydd ar restr o waith wedi'u cwblhau ac yna cânt eu prisio gan ddefnyddio system Keystone neu system gostio TOTAL ar gyfer gwaith y tîm mewnol, gan ddarparu gwybodaeth wirioneddol am y gost. Gellir nodi a monitro amrywiadau i'r rhestr wreiddiol o waith hefyd.

Gellir nodi gwaith a gwblhawyd ac amrywiadau ar y safle, gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen, neu yn y swyddfa.

Caiff y data a gesglir ar gyfer pob contract eu defnyddio gan system Keystone i gynhyrchu:

- Llythyrau awtomataidd at denantiaid
- Biliau meintiau
- Prisiadau
- Cyfarwyddiadau safle
- Dogfennaeth contractau arall

Mae hyn yn llawer mwy effeithlon gan nad oes angen ailfewnbynnu rhestrau o waith na data sy'n ymwneud â thenantiaid, eiddo a chontractau er mwyn llenwi'r dogfennau hyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn gweithio gan ddefnyddio un set o ddata o fewn system Keystone. Mae Keystone hefyd yn storio copïau o ddelweddau wedi'u sganio o gynlluniau ceginau / ystafelloedd ymolchi, taenlenni sy'n ymwneud â chontractau a dogfennaeth gysylltiedig arall yn erbyn contractau unigol, sy'n darparu trywydd archwilio llawn.

Pan fydd contractau wedi'u cwblhau, caiff yr holl waith a wnaed fel rhan o'r contract hwnnw sy'n gysylltiedig â'r cydrannau a restrir yn Atodiad 1 (Rhestr o Gydrannau Keystone) ei ddiweddaru'n awtomatig gan nodi'r dyddiadau gwirioneddol y gosodwyd y cydrannau a dyddiadau newid newydd y tu hwnt i 2020.

*Archwiliadau Data*

Mae tabl archwilio yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o'r prif dablau cronfa ddata ar system Keystone.  Mae'r tablau archwilio hyn yn olrhain y rhan fwyaf o'r trafodiadau mewnosod, diweddaru a dileu a wnaed gan ddefnyddwyr o fewn y system, ynghyd ag enw'r defnyddiwr a oedd yn gyfrifol am y trafodiad a'r dyddiad y cafodd ei wneud. Mae trywydd archwilio cynhwysfawr ar gael felly ar gyfer newidiadau i'r wybodaeth a ddelir yn y gronfa ddata.

Yn ogystal â'r tablau archwilio mewnol o fewn Keystone, mae staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n rheoli'r gronfa ddata wedi datblygu amrywiaeth o adroddiadau archwilio sy'n nodi gwallau ac anghysondebau o fewn y data. Caiff yr adroddiadau hyn eu gwirio gan staff a gwneir cywiriadau pan fo angen. Mae un meistradroddiad hefyd sy'n dangos y sefyllfa fyw o ran cydymffurfiaeth ar gyfer gwaith mewnol ac allanol.

*Storio Data mewn Warws*

Caiff gwybodaeth am SATC o fewn cronfa ddata Keystone ei hechdynnu, ei thrawsnewid a'i llwytho i'r warws data yn rheolaidd, lle caiff ei chyfuno â gwybodaeth o'r systemau tai eraill.

Mae defnyddio'r warws data yn gwella adroddiadau rheoli perfformiad a phrosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli.

Mae modd defnyddio'r warws data i greu ciplun o wybodaeth rheoli perfformiad SATC a'i storio sy'n golygu y gellir cadw'r cyd-destun hanesyddol er mwyn gwerthuso perfformiad dros amser yn gywir.

Mae'r warws data hefyd yn golygu y gellir archwilio data yn well o fewn system Keystone. Er mwyn helpu i chwilio'r gronfa ddata, mae cyfres o ddangosfyrddau ariannol, contract a boddhad cwsmeriaid wedi cael eu datblygu. Mae gan bob dangosfwrdd grynodeb lefel uchel o ddata ond gellir ei ddefnyddio i chwilio am eiddo unigol.

Tystysgrifau Cydymffurfio â SATC

Bydd pob tenant newydd yn cael tystysgrif pasio/methu pan gaiff eiddo ei ailosod, ynghyd â gwybodaeth o'r rhaglen waith ddangosol ynghylch pryd y rhagwelir y bydd yr eiddo yn cydymffurfio'n llawn. Gellir cynhyrchu'r wybodaeth hon o gronfa ddata Keystone.

Cynnydd ac Adrodd am SATC

Mae cyflawni SATC ymhlith y blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

Mae Rhaglen SATC yn rhan hanfodol o Gynllun Corfforaethol “Y Gaerffili a Garem” 2018-2023 sy'n cysylltu ag

- Amcan Llesiant 2: Galluogi Cyflogaeth. Defnyddio buddsoddiad yn y stoc tai i gynyddu nifer y gweithwyr medrus a chymwysedig a mynd i’r afael â bod yn ddi-waith trwy ddarparu prentisiaethau, hyfforddiant a lleoliadau gwaith gyda’n gweithlu mewnol a chontractwyr adeiladu.
- Amcan Llesiant 3: Mynd i’r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl.

Mae Cynllun Gwasanaeth Cartrefi Caerffili (2018-2023) hefyd yn rhestru Blaenoriaeth 1A: Caiff holl dai'r Cyngor eu gwella er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.

Mae cysylltiadau pellach y tu allan i'r Cyngor lle mae cyrraedd SATC yn flaenoriaeth o hyd yn cynnwys:

- Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2010) sy'n nodi'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.
- Safon Ansawdd Tai Cymru: Canllawiau Diwygiedig i Landlordiaid Cymdeithasol ar Ddehongli a Chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008)
- Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2018)

Ym mis Medi 2012, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili gyda saith tenant a saith cynghorydd. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys y canlynol:

Adolygu a gwneud argymhellion ar y cyfeiriad strategol cyffredinol a'r ffordd y dyrennir adnoddau mewn perthynas â SATC a'r gwasanaeth tai

Monitro cynnydd o ran cyrraedd SATC a'r ymrwymiadau i wella'r gwasanaeth a wnaed yn y ddogfen atodiad a ddosbarthwyd i denantiaid fel rhan o'r broses bleidleisio.

Caiff adroddiad hanner blwyddyn a blwyddyn lawn eu cyflwyno gerbron y Cabinet sy'n nodi cynnydd mewn perthynas â'r holl gontractau ac yn cadarnhau'r dyddiad amcanestynedig ar gyfer cwblhau'r gwaith. Rhoddir trosolwg o'r cyflawniadau niferus a welwyd fel rhan o'r ymrwymiadau ehangach a'r buddiannau a gafwyd drwy Raglen SATC. Rhoddir crynodeb o foddhad cyffredinol yn seiliedig ar yr arolygon boddhad cwsmeriaid, ac asesir i ba raddau y mae safonau gwasanaeth y Siarter Ymddiriedaeth yn cael eu bodloni gan gontractwyr.

Ymgynghorir â Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili mewn perthynas ag unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r rhaglen er mwyn sicrhau y caiff yr amcan cyffredinol o gyrraedd SATC erbyn 2021 ei gyflawni.

Y Cabinet sy'n penderfynu ar newidiadau allweddol i'r cynllun buddsoddi a mesurau ychwanegol i gefnogi'r broses o roi'r rhaglen ar waith.

Mae'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio yn cael adroddiadau rheolaidd mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn targedau blynyddol.

Mae Grŵp Atgyweiriadau a Gwelliannau i denantiaid sy'n monitro cynnydd o ran cyrraedd SATC yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed gan y Cyngor pan gynhaliwyd y bleidlais.

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Cartrefi Caerffili ar ddechrau'r rhaglen er mwyn cynnal ffocws strategol, goruchwylio cynnydd, monitro perfformiad a gwneud penderfyniadau gweithredol allweddol.

Caiff cerdyn sgorio SATC ei gynhyrchu bob mis a'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Tai a Thîm Cyflawni SATC. Caiff y cardiau hyn eu cyflwyno i'r Grŵp Atgyweiriadau a Gwelliannau hefyd fel rhan o'i ffocws ar berfformiad, i Fwrdd Prosiect Cartrefi Caerffili a Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili fel diweddariad cynnydd, a chânt eu cynnwys yn yr adroddiadau cynnydd hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Cabinet. Mae'r cardiau sgorio yn cadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cydymffurfio â SATC ar gyfer gwaith mewnol ac allanol, ynghyd â chydymffurfiaeth lawn eiddo. Maent hefyd yn cynnwys perfformiad targed wythnosol pob contractwr a lefelau boddhad tenantiaid mewn perthynas â gwaith mewnol ac allanol gan y gweithlu mewnol a chontractwyr allanol.  Nodir y dyddiad amcanestynedig ar gyfer cydymffurfio'n llawn â SATC hefyd, ynghyd â phroffil gwariant ariannol lefel uchel.

<u>Prosesau Gwirio Annibynnol</u>

Cynhaliwyd adolygiad o SATC gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2017, a chynhaliwyd adolygiad dilynol rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2018. Cyflwynwyd canlyniad yr adolygiad gerbron y Cabinet ar 30 Ionawr 2019 ac fe'i cyflwynwyd i Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ar 14 Chwefror 2019. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod "*Y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad a'n hargymhellion statudol parthed Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) ym mis Mehefin 2017 drwy wneud gwelliannau sylweddol ac, o ganlyniad, rydym bellach wedi dod i'r casgliad ei fod yn debygol o fodloni'r WHQS erbyn mis Rhagfyr 2020.*"

Caiff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddefnyddio i wirio'r systemau a ddefnyddir i gasglu, storio a sicrhau cywirdeb y wybodaeth a gaiff ei defnyddio i ddangos cynnydd o ran rhoi Rhaglen SATC ar waith. Gwneir darpariaeth yn y Cynllun Archwilio Mewnol i brofi agweddau ar y system yn rheolaidd a sicrhau bod y wybodaeth a ddefnyddir i ddangos cydymffurfiaeth â SATC yn ddilys.

Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o brosesau casglu a rheoli data gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ddechrau 2015 ac fe'u hadolygwyd yn 2016. Nodwyd nifer o welliannau a wnaed yn 2016/17. Gwnaed gwelliannu pellach yn ystod 2017/18 a chynhaliwyd adolygiad ychwanegol o'r broses ddilysu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2018/19 lle nodwyd bod mân argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad wedi cael eu cyflawni neu ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni. Er mwyn gwella'r weithdrefn wirio annibynnol ymhellach, mae swyddog o'n tîm Archwilio Mewnol wedi cael secondiad i'r tîm SATC er mwyn goruchwylio prosesau.

<u>Buddsoddiad Ariannol Blynyddol yn y Stoc</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd wedi cadw eu stoc dai baratoi Cynllun Busnes ar gyfer y stoc dai. Rhagolwg ariannol hirdymor yw'r Cynllun Busnes sy'n dibynnu ar ragdybiaethau allweddol i asesu hyfywedd ariannol cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru a'i chynnal am gyfnod o 30 mlynedd.

Mae'r Cynllun Busnes yn ddogfen allweddol i'r Llywodraeth fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr. Diben y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yw rhoi cyfraniad ariannol tuag at gost gwaith cyfalaf i gyrraedd SATC erbyn 2020 a'i chynnal wedi hynny. Caiff y Cynllun Busnes ei gyflwyno'n flynyddol i gefnogi'r cais am y Lwfans, ac mae'n cwmpasu cyfnod o 30 mlynedd. Mae'n nodi'r holl gostau sydd eu hangen i weithredu'r Cyfrif Refeniw Tai yn ogystal â rhagamcanu ffrydiau incwm rhentu a gwargedau gweithredu posibl y gellir eu defnyddio i ariannu rhaglen gyfalaf SATC. Fodd bynnag, mae'n ddibynnol ar wneud rhagdybiaethau ar adeg benodol ac mae'n rhaid diweddaru'r Cynllun Busnes yn rheolaidd gan fod amgylchiadau'n newid yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Cynllun Busnes yn ymwneud â'r canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Cyfraddau Llog
- Chwyddiant
- Cynnydd mewn Rhent
- Cyfnodau Gwag a Dyledion Drwg
- Hawl i Brynu
- Costau Rheoli ac Ymateb

Bydd newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn yn effeithio ar lefel y gwargedau gweithredu y mae'r rhaglen yn dibynnu arnynt, yn ogystal â chynyddu risgiau i'r gost fenthyca y mae'r Cynllun Busnes yn dibynnu arni. Gall newidiadau sylweddol i'r rhagdybiaethau effeithio ar gyrraedd SATC a'i chynnal felly.

Yr arolwg o gyflwr 15% o'r stoc a gynhaliwyd gan Savills yn 2008 oedd y sail wreiddiol ar gyfer y gwaith modelu ariannol yn y Cynllun Busnes ar gyfer y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gyrraedd SATC a'i chynnal. Cafodd data'r 15% eu hallosod ar gyfer y stoc dai lawn er mwyn creu gofyniad ariannol fesul eiddo i gyflawni SATC. Gan fod y rhaglen waith wedi dechrau mynd rhagddi a gan fod arolygon bellach wedi'u cwblhau, mae gwybodaeth fwy cyfredol ar gael am bob eiddo sydd wedi disodli'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd o arolwg Savills, gyda chostau gwirioneddol yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o gontractau ac arolygon a gwblhawyd, yn Keystone a'r Cynllun Busnes.

Mae'r Cynllun Busnes cyfredol wedi disodli'r data gwreiddiol o arolwg Savills gan ein bod wedi casglu gwybodaeth fwy cyfredol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cadarnhau ein Rhaglen Rheoli Asedau ar gyfer y pum mlynedd ar ôl 2020 er mwyn cynnal cyflawniadau rhaglen SATC, ac mae'r costau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Busnes hyd at 2025/26 hefyd, gyda chyllideb fforddiadwy ddangosol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill, yn amodol

